



CABINET

COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER, 12 IONAWR 2022 AM 10:30AM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd P. Marsden (Arweinydd) – Cadeirydd

Cynghorwyr:

S. Cook (Gofal Cymdeithasol a Thai), N. George (Gwastraff, Diogelu'r Cyhoedd a Strydoedd), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), J. Pritchard (Isadeiledd ac Eiddo), Mrs E. Stenner (Perfformiad, Economi a Menter), A. Whitcombe (Cynaliadwyedd, Cynllunio a Fflyd), ac R. Whiting (Dysgu a Hamdden).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Economi a'r Amgylchedd).

Hefyd yn bresennol:

R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio Cymunedau), M. Lloyd (Pennaeth Isadeiledd), C. Campbell (Rheolwr Peirianeg Trafnidiaeth), D. Lucas (Arweinydd Tîm, y Gyfarwyddiaeth Cynllunio Strategol), M. Harris (Swyddog Cymorth Gwasanaethau'r Pwyllgorau/Chauffer), M. Afzal (Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgor) ac E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgorau).

TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio, ac na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond y byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod ar wefan y Cyngor – [Cliciwch yma i'w wyllo](#). Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan S. Harris (Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151) a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai).

2. DATGAN BUDDIANNAU.

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3. CABINET - 8 RHAGFYR 2021.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir.

4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn nodi'r adroddiadau sydd wedi'u trefnu hyd at 9 Chwefror 2022. Atgoffwyd yr Aelodau bod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen weithio, ac felly mae'n bosib y bydd yn newid.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid nodi'r Flaenraglen Waith. Drwy ddangos dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD y dylid nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

5. UWCHGYNLLUN DRAFFT CORIDOR TRECELYN I RISGA (CYMOEDD GLYNEBWI ISAF A SIRHYWI)

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Uwchgyngyllun Drafft Coridor Trecelyn i Risga (Cymoedd Glynebwy Isaf a Sirhywi) ac i gymeradwyo'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus chwe wythnos mewn perthynas â'r cynllun rhwng 19 Ionawr a 2 Mawrth 2022.

Dywedwyd wrth y Cabinet fod Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ehangach mewn cyfnod o drawsnewid ac roedd yr angen am strategaeth i gydlynu mentrau adfywio a manteisio ar ffrydiau ariannu yn fater brys er mwyn manteisio i'r eithaf ar y buddion posibl. Roedd llofnodi'r Fargen Ddinesig a Chronfa Fuddsoddi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn fuddsoddiad digynsail o £1.2 biliwn i gefnogi twf economaidd y rhanbarth.

Nododd y Cabinet, o ran Coridor Trecelyn i Risga, mai'r sylfaen gyflogaeth bresennol a'r economi dwristiaeth gref oedd y seiliau oedd yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer twf economaidd ac adnewyddu a phan fo'n gysylltiedig â ffrydiau ariannu ychwanegol, gallai hyrwyddo'r ardal fel ardal gyflogaeth, twristiaeth a hamdden o bwys. Ceisiodd yr Uwchgyngyllun integreiddio'r sylfaen honno ac mae'n nodi strategaeth a fframwaith datblygu ar gyfer cyflawni canlyniadau gan ddarparu sail ar gyfer ceisiadau i ffrydiau ariannu, ar gyfer prosiectau yn yr ardal.

Rhodddwyd trosolwg byr i'r Cabinet o'r broses ymgynghori hyd yma a sut y byddai'n cael ei datblygu ymhellach. Cadarnhaodd y Swyddog y byddai defnydd llawn yn cael ei wneud o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a gwefan y Cyngor gyda'r Tîm Cyfathrebu yn cefnogi'r broses ymgynghori drwyddi draw. Nododd y Cabinet y byddai'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys arddangos poster mewn siopau a llyfrgelloedd lleol, gyda llyfrgelloedd yn cael copïau papur o'r Uwchgyngyllun i'r cyhoedd eu gweld. Yn gyffredinol, y nod oedd ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ddulliau traddodiadol a digidol. Roedd y Cabinet yn falch o nodi y byddai dulliau traddodiadol hefyd yn cael eu defnyddio fel rhan o'r broses ymgynghori, gan y byddai hyn yn arbennig o bwysig i drigolion heb fynediad digidol.

Nododd y Cabinet ei bod yn debygol y byddai ychydig o oedi o ran cyfieithu'r ddogfen i'r Gymraeg, a olygai y gallai'r broses ymgynghori ddechrau gyda'r fersiwn Saesneg yn unig ond sicrhawyd y Cabinet mai dim ond mater o ddyddiau fyddai nes bod y fersiwn Gymraeg ar gael.

Cofnododd y Cabinet eu diolch i bawb am eu gwaith caled a'u hymwneud â datblygiad yr Uwchgyngyllun, gan gynnwys y rhai a oedd wedi mynychu'r sesiynau ymgynghori. Croesawodd y Cabinet y cynllun a oedd gan obeithio y byddai'n hynod gadarnhaol neu hyd yn oed yn 'ddogfen

hanesyddol' ar gyfer yr ardal. Mynegodd yr Arweinydd ei balchder yn y ddogfen Uwchgyllun a'i chroesawu fel elfen hanfodol o sicrhau twf economaidd ac adnewyddu yn yr ardal ac anogodd y cyhoedd i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd argymhelliad ychwanegol a'i eilio ar gyfer 3.3 o'r adroddiad i ddarllen; 'bod adroddiad pellach yn cael ei hailgyflwyno i'r Cyngor ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad' a thrwy bleidleisio electronig a chadarnhad llafar, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: –

1. Dylid cymeradwyo'r Uwchgyllun Drafft i alluogi proses ymgynghori â'r cyhoedd.
2. Bydd yr Uwchgyllun Drafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos rhwng 19 Ionawr a 2 Mawrth 2022.
3. Dylid dod ag adroddiad pellach yn ôl i'r Cyngor ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad.

6. MAP RHWYDWAITH TEITHIO LLESOL

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn tynnu sylw at yr ymatebion o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol ac a oedd hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y Map Rhwydwaith Teithio Llesol Drafft. Diolchodd Aelodau'r Cabinet i'r Swyddogion a'r tîm ehangach am gyflwyno'r adroddiad.

Nododd y Cabinet gefndir y broses ymgynghori a darparwyd crynodeb o'r ymatebion. Dywedwyd bod y cam cychwynnol wedi gweld cyfradd ymateb sylweddol, ond roedd y gyfradd ymateb wedi gostwng yng nghamau dau a thri. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet fod yr adroddiad terfynol wedi ystyried holl sylwadau'r ymgynghoriad. Diolchodd yr Aelod Cabinet i bawb am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys y naw ysgol a oedd wedi darparu 113 o ymatebion.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi'r camau a gymerwyd i roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys ymgyrch e-bost i dros 110 o wahanol grwpiau, canolfannau cymunedol, awdurdodau lleol cyfagos, Aelodau Etholedig a Chynghorwyr Tref a Chymuned ynghyd â chyfryngau cymdeithasol, taflenni digidol a phosteri. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet fod 216km o lwybrau newydd wedi'u cynnwys ac er na fyddai pob llwybr yn cydymffurfio, bydd llwybrau posibl yn cael eu datblygu cyn cyflwyno ceisiadau am gyllid i Lywodraeth Cymru i'w darparu; ychwanegodd y byddai'n hapus i weithio gydag aelodau ward lleol ar gynlluniau newydd posibl pan fydd cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gael.

Dyweddodd y Rheolwr Peirianeg Trafnidiaeth wrth y Cabinet, er bod ardaloedd wedi bod yn destun cyfyngiadau gan Lywodraeth Cymru, nad oedd hynny wedi cyfyngu ar eu huchelgais ar gyfer y cynllun teithio llesol a'u bod wedi ymestyn y cwmpas o 112 yn yr INM a fabwysiadwyd ar hyn o bryd i 400 yn y Map Rhwydweithiau Teithio Llesol arfaethedig.

Croesawodd y Cabinet yn arbennig y mewnbwn a gafwyd gan Ddysgwyr i'r Cynllun Teithio Llesol, a fu'n awyddus iawn i fod yn rhan o'r broses, ac fel un o'r cenedlaethau mwyaf ymwybodol o'r amgylchedd, cydnabu'r Cabinet bwysigrwydd eu cyfranogiad.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion yn yr adroddiad gael eu cymeradwyo. Drwy bleidleisio'n electronig a chadarnhad llafar, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog, y dylid nodi canlyniadau'r ymgynghoriad ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol drafft a bod y Map Rhwydwaith Teithio Llesol yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.50am.

Wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 26 Ionawr 2022.

CADEIRYDD